WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub Cymru yn gwella'u gwasanaethau. Rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r awdurdod yn ceisio ei gyflawni; sut mae'n gwneud hynny; a'r hyn y mae angen i'r Awdurdod ei wneud i wella'r ffordd y mae'n gwella ei wasanaethau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a phob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (yr Awdurdod) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Awdurdod yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o bethau, yn arbennig y pethau hynny y mae'r Awdurdod wedi dweud yw ei flaenoriaethau o ran gwella.

Rydym am gael eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Awdurdod yn eu darparu yn eich ardal chi a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost at info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn John Roberts, Richard Harries a John Dwight, o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella yng Nghymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff yn gweithio o dan adain Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ. Ffôn 029 2032 0500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu ewch i'r wefan yn www.wao.gov.uk.

(h) Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys


Pa fath o ardal yw Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog? 04

A yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cael ei reoli'n dda? 05

A yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella? 06

A yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gwasanaethu'r Parc a phobl yn dda? 09

A yw'r Awdurdod yn gofalu am Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog? 10

A yw'r Awdurdod yn helpu pobl i fwynhau a deall Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog? 12

Beth y dylai'r Awdurdod ei wneud? 14


**Atodiadau**


Atodiad 1 - Yr Archwilydd Cyffredinol a'r adroddiad hwn 15

Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'r Awdurdod 17

Atodiad 3 - Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol 18

Atodiad 4 - Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 19

Atodiad 5 - Cyfeiriadau 21

# Pa fath o ardal yw Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog?

1 Sefydlwyd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (y Parc) yn 1957, sef yr olaf o'r tri pharc cenedlaethol a grëwyd yng Nghymru. Mae ganddo'r ardal fwyaf o dir comin bryniog agored yng Nghymru, pedair o'r pum system ogofau hiraf yn y DU a 268 o henebion cofrestredig. Mae arwynebedd y Parc sy'n 1,346 cilomedr sgwâr yn cynnwys pedair cadwyn wahanol o fynyddoedd, gan ymestyn o Landeilo yn y gorllewin i'r Gelli Gandryll yn y dwyrain.

2 Aberhonddu yw'r dref fwyaf ond ymhlith yr aneddiadau eraill yn y Parc mae Crugywel, Gilwern a'r Gelli Gandryll. Yn y parthau canolog a dwyreiniol, mae'r boblogaeth wedi'i chrynhoi'n bennaf yn Nyffryn Wysg, Ceunant Clydach, ardal y Gelli Gandryll/Talgarth ac ardal Hirwaun/Penderyn.

3 Yr Awdurdod yw'r sefydliad sy'n rheoli'r Parc. Mae gan yr Awdurdod tua 130 o aelodau o staff sy'n gweithio i warchod y Parc, gan annog pobl i'w ddefnyddio a gwella lles pobl a chymunedau lleol. Mae tua 35 y cant o'r staff yn staff rhan-amser neu dymhorol. Ceir dros 5,300 cilomedr o wrychoedd a bron 1,800 o hawliau tramwy o fewn y Parc, sy'n creu cyfanswm hyd o bron 2,000 cilomedr.

4 Mae tua 35,000 o bobl yn byw o fewn y Parc ac mae tua 70 y cant o'r tir o fewn y Parc yn eiddo preifat. Bob blwyddyn mae dros 3.8 miliwn o bobl yn ymweld â'r Parc, gan dreulio dros 4.2 miliwn o ddiwrnodau ymwelwyr ynddo.

ardal ddaearyddol
1,346 km$^2$
/////////////

poblogaeth
tua 35,000
/////////////

ymwelwyr y flwyddyn
3.8 miliwn
/////////////

# A yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cael ei reoli'n dda?

5 Ym mis Gorffennaf 2010, lluniodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad sy'n cynnwys rhywfaint o fanylion am y ffordd y caiff yr Awdurdod ei drefnu a'i reoli. Nodir ein canfyddiadau yn Atodiad 3. Mae'r Adroddiad Asesu Corfforaethol llawn ar gael ar wefan yr Awdurdod neu ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

6 Casgliad cyffredinol yr adroddiad hwnnw oedd bod arweinyddiaeth effeithiol wedi gosod seiliau cadarn ar gyfer gwella ac mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen cyflawni mwy o waith; er bod cynnal y momentwm a fydd yn arwain at welliant pellach yn parhau i fod yn her.

7 Hynny yw, mae strwythur newydd yr Awdurdod yn rhoi rôl gryfach i aelodau a chyfeiriad cliriach gan uwch aelodau o staff. Mae hyn wedi arwain at wella'r ffordd y gall yr Awdurdod weithredu. Mae'r Awdurdod yn gwneud llawer o'i waith drwy gydweithio ag eraill ac mae ganddo ffordd effeithiol o reoli ei staff. Mae wedi llwyddo i ganolbwyntio ar ei gyllid, gan sicrhau ei fod yn rheoli'r arian a gaiff ei wario ganddo. Fodd bynnag, dim ond nawr y mae'n dechrau nodi sut y bydd yn ymateb i doriadau tebygol yn ei gyllid.

8 Mae tîm uwch swyddogion yr Awdurdod yn gymharol fach, gan ei gwneud yn anodd i gyflawni gwelliannau arfaethedig pellach yn ddigon cyflym.

9 Ers i ni lunio'r Asesiad Corfforaethol mae'r pwysau wedi cynyddu ar bob gwasanaeth cyhoeddus i wneud y defnydd gorau posibl o'i holl adnoddau. Mae'r archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi ei farn ar gyfrifon yr Awdurdod. Mae ei Lythyr Archwilio Blynyddol, sy'n rhoi gwybodaeth am y cyfrifon, y defnydd o adnoddau a Chynllun Gwella'r Awdurdod wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn fel Atodiad 4.

10 Mae'r Awdurdod yn cadw llygad barcud ar ei wariant ac mae'n rhagweld y gall gynnal ei lefel o gronfeydd wrth gefn ar ddiwedd 2010-11. Yn seiliedig ar y setliad drafft a gafwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, mae'r Awdurdod wedi nodi y bydd angen iddo leihau ei wariant £118,000 y flwyddyn am y dair blynedd nesaf. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi cytuno ar strategaeth gyllideb newydd yn ddiweddar a fydd yn mynd i'r afael â hyn drwy:

- arbedion cost o effeithlonrwydd gweithredol;
- arbedion o wastraff naturiol a rhyddhau staff yn gynnar yn wirfoddol; a
- chreu incwm ychwanegol.

11 Mae cyllideb fantoledig ar gyfer 2013-14 wedi'i datblygu i'w chyflwyno i'r Awdurdod ym mis Chwefror 2011.

12 Ceir rhagor o wybodaeth am hawliau pobl mewn perthynas â chyfrifon llywodraeth leol yn nhaflen Swyddfa Archwilio Cymru, sef *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau*, sydd ar gael ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk.

# A yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella?

13 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella'r hyn y mae'n ei wneud a sut mae'n ei wneud. Mae'n rhaid iddo hefyd gyhoeddi rhestr o'r prif flaenoriaethau y mae'n bwriadu eu gwella bob blwyddyn - eu hamcanion gwella. Ar gyfer 2010-11, at ddibenion y Mesur Llywodraeth Leol, penderfynodd yr Awdurdod ganolbwyntio ar wyth amcan, yr ydym wedi'u nodi isod:

- darparu gwasanaeth cynllunio rhagorol sy'n ennyn hyder y cyhoedd a busnesau drwy gyflawni'r Cynllun Gwella Pellach;
- sicrhau bod Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei lunio yn unol ag amserlen y cytunwyd arni â Llywodraeth y Cynulliad;
- adolygu gwaith gorfodi a chynllunio ar gyfer gwasanaeth o ansawdd i gefnogi'r broses o gynllunio datblygiadau;
- cyflawni blwyddyn 2 o'r cynllun gwella tair blynedd ar gyfer Cyllid;
- cyflawni blwyddyn 2 o'r cynllun gwella tair blynedd ar gyfer Perfformiad;
- cyflawni blwyddyn 2 o'r cynllun gwella tair blynedd ar gyfer Gwybodaeth a Llywodraethu;
- lleihau effaith amgylcheddol yr Awdurdod yn cynnwys gollyngiadau $CO_2$; a
- datblygu egwyddorion llywodraethu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd[1] wrth wraidd popeth a wnawn, yn cynnwys datblygu a gweithredu Siarter gyda Chynghorau Cymuned.

14 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei amcanion gwella, a'i gynlluniau i'w cyflawni, cyn gynted 'ag y bo'n ymarferol ar ôl dechrau mis Ebrill bob blwyddyn'. Yn y gorffennol, mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi ei gynllun gwella ym mis Ebrill neu fis Mai. Fodd bynnag, yn 2010 fe'i cyhoeddwyd ar ei wefan ar 22 Hydref fel rhan o'i adolygiad blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2009 a mis Mawrth 2010. Oherwydd yr angen i gasglu ac archwilio'r wybodaeth, ni chaiff yr adolygiad blynyddol hwn ei gyhoeddi tan fis Hydref fel arfer. Nid yw'r penderfyniad i ohirio cyhoeddi'r cynllun gwella tan yr adolygiad blynyddol yn cyflawni'r gofyniad i gyhoeddi 'cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dechrau mis Ebrill bob blwyddyn'.

15 Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o'r mater ac, er ei fod yn bwriadu mabwysiadu'r un dull yn y flwyddyn sydd i'w dod, mae'n bwriadu cymeradwyo'r ddogfen gyfunol hon a'i chyhoeddi cyn diwedd mis Mai. Fodd bynnag, bydd yn anodd i'r Awdurdod gasglu a chadarnhau'r wybodaeth sydd ei hangen arno yn ddigon cynnar er mwyn cyflawni hyn o fewn y terfyn amser heriol hwn. Yn ogystal, nid yw'n debygol o allu cael gwybodaeth gan awdurdodau'r parciau cenedlaethol eraill, sy'n ei gwneud yn anodd cymharu ei berfformiad. Rydym hefyd o'r farn bod opsiynau i'r Awdurdod gyhoeddi ei amcanion gwella yn ehangach, er enghraifft, drwy eu cynnwys yn ei gyhoeddiadau allweddol.

16 Nid yw amcanion gwella'r Awdurdod yn canolbwyntio i raddau helaeth ar y Parc, nac ar bobl leol na'r sawl sy'n ymweld â'r Parc; yn hytrach maent yn canolbwyntio mwy ar yr Awdurdod ei hun. Mae'r rhan fwyaf o'r amcanion yn ymwneud â'r newidiadau y bydd yn eu gwneud i'w drefniadau, yn hytrach na pha wahaniaethau y gall y Parc a phobl eu disgwyl. Gan fod yr amcan o ran y Cynllun Datblygu Lleol yn ofyniad cyfreithiol, nid ydym o'r farn ei fod yn amcan sy'n ymwneud â gwella.

1 Y broses o wneud penderfyniadau a sicrhau y cânt eu cynnal.

17 Fodd bynnag, mae'r amcan ynghylch ennyn hyder y cyhoedd a hyder busnesau yn ei wasanaeth cynllunio yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau ar gyfer pobl, ac mae'r amcanion ynghylch lleihau'r effaith amgylcheddol a datblygu egwyddorion llywodraethu ill dau yn gyson â meysydd blaenoriaeth Llywodraeth y Cynulliad, sy'n gysylltiedig â'r arian grant ar gyfer yr Awdurdod.

18 Gwnaethom hefyd archwilio pa mor dda yr oedd yr Awdurdod yn cynnwys y cyhoedd a'r rhai sy'n gweithio iddo a chydag ef, wrth benderfynu beth y dylid rhoi blaenoriaeth iddo. Defnyddiodd yr Awdurdod yr ymatebion i ymgynghoriadau blaenorol a phresennol mewn ffordd synhwyrol i'w helpu i lunio'r amcanion hyn, yn hytrach na chynnal ymgynghoriad penodol ar ei amcanion gwella. Mae'r gwaith a wnaed gan yr Awdurdod fel rhan o'r broses o ddrafftio Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn enghraifft o'r ymgynghoriad sydd ar gael eisoes. Ategwyd yr ymgynghoriad hwn gan weithdai gyda staff ac aelodau. Ar gyfer sefydliad cymharol fach, mae'r dull hwn o weithredu yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau cyfyngedig gan sicrhau rhywfaint o gyfranogiad gan randdeiliaid. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn cydnabod y gellir gwneud mwy, yn enwedig o ran cysoni ei amcanion â'r adnoddau sydd ar gael iddo, ac i'r perwyl hwnnw, cynhaliodd yr Awdurdod gyd-gyfarfod â'r tîm rheoli yn ystod mis Rhagfyr er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r agwedd hon.

19 Gwnaethom ystyried a yw'r Awdurdod yn gwybod yn glir sut y bydd y Parc a phobl ar eu hennill os bydd yn gwella fel y bwriedir. Er mwyn cael y ddealltwriaeth honno, mae angen i'r Awdurdod allu mesur ac asesu ei gynnydd. Rydym o'r farn bod y rhan fwyaf o amcanion yr Awdurdod wedi'u llunio yn y fath fodd fel y gellir mesur ac asesu. Er enghraifft, gellid mesur y defnydd o ynni a hyder y cyhoedd a busnesau yn hawdd, yn yr un modd ag y gellid cyflawni'r ail flwyddyn o'i gynlluniau tair blynedd, cynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol ac adolygu gorfodi.

20 Mae'r Awdurdod wedi nodi'r math o wybodaeth am berfformiad y bydd yn ei defnyddio i fesur cynnydd, ond gellid atgyfnerthu'r dangosyddion hyn. Er enghraifft, nid ydym o'r farn y bydd canolbwyntio ar ba mor gyflym yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio yn helpu i ddangos bod gan yr Awdurdod 'wasanaeth cynllunio rhagorol.' Yn yr un modd, nid oes sicrwydd gennym o ran pa brofion y gellid eu cymhwyso i asesu'n effeithiol p'un a oes gan yr Awdurdod 'egwyddorion llywodraethu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd'. Fodd bynnag, hyd yn oed petai'r Awdurdod yn gallu mesur ac asesu cynnydd yn erbyn ei amcanion gwella, gan fod amcanion gwella'r Awdurdod fel arfer yn ymwneud â'i drefniadau mewnol, ni fyddai'n rhoi gwybodaeth i'r Awdurdod o ran sut yr oedd y gwelliannau hyn wedi bod o fudd i'r Parc, i'r bobl sy'n byw yn y Parc ac i ymwelwyr.

21 Yn olaf roeddem am archwilio pa mor dda y mae cynlluniau'r Awdurdod yn cefnogi ei ymdrechion i wella ac a allai ffforddio talu am y gwelliannau hyn. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i'r cynllun gwella gynnwys gwybodaeth fanwl am sut y bydd yn cyflawni ei amcanion. Felly ar hyn o bryd mae'n anodd gwneud sylwadau ar ba mor effeithiol y gallai ei gynlluniau fod, neu a all dalu amdanynt. Yn amlwg, mae'r cysylltiadau rhwng Cynllun Gwella'r Awdurdod a'r cynlluniau busnes y bydd timau ac aelodau unigol o staff yn eu dilyn o ddydd i ddydd yn bwysig. Nid ydym wedi ystyried y maes hwn yn fanwl eto ac y mae'n rhywbeth rydym yn bwriadu ei wneud dros y misoedd i ddod.

22 Mae angen i bob awdurdod gael gwybodaeth dda am sut mae'n perfformio ac am brofiadau cwsmeriaid a defnyddwyr a'i defnyddio'n dda er mwyn iddo ddarparu gwasanaethau da a'u gwella ymhellach. Fel yr awgrymwyd gennym yn ein hadroddiad ym mis Gorffennaf, mae'r defnydd o wybodaeth am berfformiad yn faes y mae angen i'r Awdurdod ei wella.

23 Er gwaethaf yr amheuon hyn, mae ymdrechion parhaus yr Awdurdod i wella'r ffordd y mae'n pennu ei amcanion, yn cynllunio ar gyfer eu cyflawni ac yn mesur ei lwyddiant wrth wneud hynny yn galonogol. Mae wedi cydweithredu â'r ddau awdurdod parc cenedlaethol arall yng Nghymru i gomisiynu adroddiad ar sut y gall ddefnyddio gwybodaeth yn well a bydd yn cymryd rhan mewn gweithdai rydym yn eu trefnu â'r nod o wella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei defnyddio a datblygu cynlluniau gwella mwy defnyddiol.

# A yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gwasanaethu'r Parc a phobl yn dda?

24 Drwy Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol, gobeithiwn yn raddol greu darlun o ba mor dda y mae'r Awdurdod yn gwasanaethu'r Parc, pobl leol a'r rheini sy'n ymweld â'r Parc. Er mwyn gwneud hynny, bob blwyddyn byddwn yn archwilio gwasanaethau'r Awdurdod a rhai o'i amcanion ar gyfer gwella fel y maent yn berthnasol i ddwy agwedd bwysig ar fywyd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Credwn, gyda'i gilydd, fod yr agweddau hyn yn cwmpasu'r rhan fwyaf o wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau parciau cenedlaethol. Mae'r agweddau fel a ganlyn:

- gofalu am y Parc Cenedlaethol; a
- helpu pobl i fwynhau a deall y Parc Cenedlaethol.

25 Yn yr asesiad eleni, rydym wedi edrych ar sut mae'r Awdurdod yn perfformio hyd yn hyn mewn perthynas â dau o'i amcanion. Mae'r amcanion a ddewiswyd gennym fel a ganlyn:

- darparu gwasanaeth cynllunio rhagorol sy'n ennyn hyder y cyhoedd a busnesau; a
- lleihau effaith amgylcheddol yr Awdurdod yn cynnwys gollyngiadau $CO_2$.

26 Gwnaethom ddewis yr amcanion hyn oherwydd, o'r rheini sydd ar gael, roeddem o'r farn mai'r rhain oedd y rhai a oedd yn canolbwyntio fwyaf ar ganlyniadau, yn hytrach nag ar weithgareddau. Yn gyffredinol, os yw'r Awdurdod wedi dewis rhoi blaenoriaeth i bethau penodol, yna dylai fod yn gallu mesur sut y maent yn effeithio ar y Parc, pobl leol ac ymwelwyr â'r Parc.

27 Byddwn yn edrych ar amcanion gwella eraill y mae'r Awdurdod yn eu pennu iddo'i hun yn ein hadroddiad nes ymlaen eleni.

28 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gweithio gydag awdurdodau i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Yr awdurdodau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn sy'n bennaf cyfrifol am ystod a safon y gwasanaethau hynny, gan weithio yn unol â fframwaith statudol a chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Disgwylir i bob awdurdod gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n egluro sut y gweithredwyd ei gynllun. Mae hyn yn caniatáu i'r Bwrdd gynnig cyngor ar sut y gallai awdurdod wella'i drefniadau lleol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun i asesu'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg ac i hyrwyddo gwelliant.

29 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi canmol yr Awdurdod am sefydlu Pwyllgor yr Iaith Gymraeg, a nodi Aelod Eiriolwr i gefnogi dyletswyddau Swyddog yr Iaith Gymraeg. Mae'r Awdurdod yn cadw gwybodaeth am sgiliau ieithyddol ei staff, a gall ddarparu gwasanaeth Cymraeg yn ei brif dderbynfa. Er bod y rhan fwyaf o gyhoeddiadau'r Awdurdod yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg neu'n ddwyieithog, mae ei brif gyhoeddiad, sef y Visitor Guide, ar gael yn Saesneg yn unig. Yn ddiweddar lansiodd yr Awdurdod y fersiwn Saesneg o'i wefan, gyda'r fersiwn Cymraeg i ddilyn yn ddiweddarach. Mae hyn yn groes i'r Cynllun Iaith Gymraeg, ac mae'r Awdurdod yn cymryd camau i unioni'r sefyllfa ar hyn o bryd.

# A yw'r Awdurdod yn gofalu am Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog?

30 Mae gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod yn defnyddio cyfran sylweddol o gyllideb yr Awdurdod, ac mae hefyd yn bwysig yn ei rôl o ofalu am y Parc. Er enghraifft, mae'n debyg bod gwneud y penderfyniadau cywir o ran materion cynllunio, ac ennill unrhyw apeliadau a allai deillio o hynny, yn helpu i ddiogelu'r Parc rhag datblygiadau di-groeso.

31 Ar y cyfan mae'r Awdurdod yn ennill dros 80 y cant o apeliadau cynllunio, ond lleihaodd hyn i 47 y cant yn 2009-10. Er y bu gwelliant sylweddol yn y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Tachwedd 2010, gyda'r Awdurdod yn ennill dros 70 y cant, mae perygl y bydd cyhoeddusrwydd negyddol am rai o'r achosion a gollwyd yn niweidio enw da'r Awdurdod. Mae ymatebolrwydd y gwasanaeth i gwynion am y rheoliadau cynllunio yn wael ym mhob un o'r tri pharc cenedlaethol yng Nghymru, ond mae hyd yn oed yn waeth ar gyfer yr Awdurdod hwn gyda dim ond 23 y cant o achosion gorfodi wedi'u datrys o fewn 12 wythnos yn ystod 2009-10. Mae’r Awdurdod yn ymwybodol o’r mater ond, oherwydd blaenoriaethau eraill, nid yw wedi canolbwyntio ar y maes hwn eto. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth gorfodi yn cael ei adolygu, a bydd aelodau'r Awdurdod yn ystyried goblygiadau'r adolygiad hwnnw.

32 Mae canran y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd wedi amrywio rhwng 66 ac 86 y cant dros y tair blynedd diwethaf. Yn y gorffennol, bu ymatebolrwydd yr Awdurdod wrth benderfynu ar y ceisiadau hyn ymhlith yr isaf o blith yr holl awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, gwellodd ei berfformiad yn 2009-10 (i 67 y cant o fewn wyth wythnos) sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 63 y cant. Cynhaliwyd y gwelliant hwn yn ystod tri mis cyntaf 2010-11. Mae cynllun dilysu lleol a gyflwynwyd yn ddiweddar, sy'n nodi'r hyn sydd angen ei gyflwyno fel rhan o gais cynllunio, yn ei gwneud yn fwy tebygol y gellir cymeradwyo ceisiadau pan y'u cyflwynir am y tro cyntaf.

33 Mae'n rhaid i bob awdurdod cynllunio yng Nghymru gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer ei ardal. Mae'r CDLl yn darparu canllawiau i unigolion, busnesau a datblygwyr am yr hyn y gellir ei adeiladu ac ymhle. Mae'r broses o lunio CDLl yr Awdurdodwedi’i oedi 12 mis, yn rhannol oherwydd y cymhlethdodau o ran ymgynghori â'r saith awdurdod lleol cyfansoddol ynglŷn â newidiadau y gofynnwyd amdanynt gan aelodau'r Awdurdod. O ganlyniad i hyn, mae’r cytundeb ar ddarparu’r CDLl wedi’i ddiweddaru mewn ymgynghoriad â Llywodraeth y Cynulliad.

34 Ni nodwyd unrhyw wybodaeth am y ddarpariaeth tai fforddiadwy, naill ai fel canran o'r holl dai newydd neu fel canran o'r holl dai newydd ar dir a ddatblygwyd eisoes. Er mai prin yw dylanwad yr Awdurdod ar faint o geisiadau o'r fath a wneir, rydym o'r farn ei fod yn bwysig ei fod yn monitro'r materion hyn, yn enwedig gan fod ganddo ddyletswydd i geisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol[2].

35 Ni nodwyd unrhyw wybodaeth am lefel hyder y cyhoedd na busnesau yn y gwasanaeth cynllunio. Mae hon yn agwedd y bydd angen i'r Awdurdod ei mesur er mwyn gwybod p'un a yw'n cyflawni ei amcan o ran ei wasanaeth cynllunio ai peidio.

36 Er bod y wybodaeth sydd ar gael gan yr Awdurdod yn dangos bod ei wasanaeth cynllunio yn gwella mewn sawl maes, mae llawer o'r wybodaeth hon yn cyfeirio at ba mor gyflym y mae'n darparu gwasanaeth, yn hytrach na pha mor dda y mae'n gwneud hynny. Rydym yn cydnabod bod

2 Gweler Atodiad 2.

deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i lawer o'r wybodaeth hon gael ei chasglu, ond nid yw'r Awdurdod wedi bod yn casglu gwybodaeth ychwanegol am yr hyn y mae'r gwasanaeth wedi'i gyflawni, yn hytrach mae'n nodi pa weithgareddau y mae wedi'u cyflawni. Caiff gormod o sylw ei roi i gyflawni camau gweithredu, yn hytrach na pha un a yw'r camau gweithredu hynny yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ai peidio. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi dechrau mynd i'r afael â'r mater hwn ac mae'n dechrau casglu gwybodaeth fwy ystyrlon.

37 Mae'r amcan o leihau effaith amgylcheddol yr Awdurdod yn fwyaf perthnasol mewn perthynas â sut y mae'n gofalu am y Parc. Cyrhaeddodd yr Awdurdod ei darged o leihau ei ddefnydd o drydan 10 y cant yn 2009-10. Lleihaodd cyfanswm ei ôl-troed $CO_2$ 13.5 y cant rhwng 2008-09 a 2009-10. Mae'r lleihad hwn yn cyfateb i dros 60 tunnell yn llai o $CO_2$. Roedd rhan sylweddol o'r lleihad hwn o ganlyniad i'r ffaith bod y staff wedi newid y ffordd yr oeddent yn teithio i'r gwaith. Roedd defnydd yr Awdurdod o gerbydau gollyngiadau isel hefyd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr.

38 Roedd adeiladu 10 system trydan dŵr, fel rhan o'r prosiect Cymoedd Gwyrdd, wedi helpu i leihau gollyngiadau carbon. Enillodd y prosiect wobr arobryn ac fe'i defnyddiwyd fel astudiaeth achos yng nghynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar newid yn yr hinsawdd. Mae'r gofyniad bod yn rhaid i bob cais cynllunio newydd gydymffurfio â pholisi dylunio cynaliadwy'r Awdurdod a fabwysiadwyd yn ddiweddar yn gam arall sy'n helpu i leihau effeithiau amgylcheddol.

39 Gyda'i gilydd, mae'r mentrau hyn yn helpu i ddangos bod yr Awdurdod yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni ei amcan o ran ei effaith amgylcheddol.

40 Mae gofalu am y Parc yn golygu mwy na gweithgareddau'r gwasanaeth cynllunio neu graddau'r effaith amgylcheddol yn unig. Felly edrychwyd ar ba wybodaeth arall a oedd ar gael, er efallai nad oes cysylltiad agos rhyngddo ac amcanion gwella penodol yr Awdurdod.

41 Mae prosiect 'Du i Wyrdd' yr Awdurdod wedi helpu i adfywio rhannau o gwm o fewn y Parc a oedd yn cynnwys ardal fawr o fawn agored. Mae'r Awdurdod wedi ymateb i bryderon am yrru beiciau modur yn anghyfreithlon oddi ar y ffordd (off-road[3]) drwy weithio gyda phartneriaid i lunio ffurflen ar ei wefan sy'n caniatáu i adroddiadau am weithgarwch o'r fath gael eu hanfon at yr heddlu yn uniongyrchol. Mae rhai o'r adroddiadau hyn eisoes wedi arwain at erlyniadau.

42 Ar y cyfan, heblaw am y wybodaeth am yr effaith amgylcheddol, nid ydym o'r farn bod digon o wybodaeth i ni, na'r Awdurdod lunio barn glir ar ba un a yw'r Awdurdod yn gofalu am y Parc. Mae'n amlwg bod rhai o'i weithgareddau i fod i helpu, ond nid ydym yn gwybod a yw'r gweithgareddau hynny wedi gwneud llawer o wahaniaeth mewn gwirionedd.

3 Term a ddefnyddir ar gyfer gyrru cerbyd arbenigol ar ffyrdd heb darmac.

# A yw'r Awdurdod yn helpu pobl i fwynhau a deall Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog?

43 Nid yw amcanion gwella'r Awdurdod yn canolbwyntio ar fwynhad a dealltwriaeth pobl o'r Parc, ond rydym wedi edrych ar y wybodaeth a oedd ar gael, ac rydym wedi nodi rhywfaint ohoni yn y paragraffau canlynol.

44 Wrth reswm mae mynediad yn bwysig i fwynhad y cyhoedd o'r Parc. Mae'r wybodaeth a gafwyd gennym o ran y cyfleoedd mynediad a ddarperir gan yr Awdurdod yn cynnwys:

- Teithiau cerdded graddedig:
  - Mynediad i Bawb - yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio;
  - Teithiau Cerdded Hawdd - yn addas ar gyfer dechreuwyr; a
  - Theithiau cerdded Cymedrol, Egnïol ac Ymdrechgar.
- Canllaw Mynediad Haws, sy'n cynnwys map sy'n dangos lleoliad 55 llwybr ac atyniadau sydd â mynediad haws;
- ffurflen i gasglu adborth gan y bobl sy'n mynd ar ei deithiau cerdded tywysedig; ac
- mae canran cyfanswm hyd y llwybrau troed a'r hawliau tramwy eraill sy'n hawdd i aelodau'r cyhoedd eu defnyddio wedi cynyddu o 61 y cant yn 2007-08 i 63 y cant yn 2009-10.

45 Darperir ar gyfer defnyddwyr eraill y Parc, gyda chyfleusterau ar gael i logi beiciau a threlars, a mynediad i 15 llwybr beicio mynydd graddedig. Mae gan yr Awdurdod safle penodol ar gyfer marchogwyr, ac yn 2005 enillodd yr Awdurdod Wobr Fynediad Cymdeithas Ceffylau Prydain am y Parc Cenedlaethol sydd fwyaf gweithredol o ran agor llwybrau i farchogwyr. Mae gwefan yr Awdurdod yn cynnwys gwybodaeth a dolenni i safleoedd defnyddiol am ystod eang o weithgareddau megis ogofa, pysgota, gleidio a chanŵio. Wrth sefydlu ei safle Facebook rhyngweithiol a defnyddio 'Warden sy'n Trydar' ar Twitter, mae'r Awdurdod yn dangos ei fod yn ymwybodol o gyfleoedd newydd.

46 Mae gwaith yr Awdurdod sydd a'r nod o annog mynediad ehangach i'r Parc yn cynnwys:

- adeiladu ar y cydberthnasau sy'n bodoli eisoes gydag un o Hyrwyddwyr y Gymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig;
- cydgysylltu cyfarfodydd y Grŵp Gweithredu ar Fynediad i Bobl Anabl;
- darparu cyfres o weithgareddau peilot ar gyfer Cynllunwyr Map Bywyd[4]; a
- threfnu ymweliadau gan grwpiau sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol, ac annerch grwpiau o'r fath fel rhan o'r cynllun Croesi Ffiniau'r Parc a ariennir ar y cyd.

47 Mae argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus yn rhan bwysig o sicrhau mynediad ehangach i'r Parc. Caiff Bysiau'r Bannau eu comisiynu'n arbennig gan yr awdurdod i gludo pobl i Aberhonddu ac yn eu blaenau ar lwybrau amrywiol o amgylch y Parc. Gall bobl ar draws de Cymru a Swydd Henffordd ddefnyddio Bysiau'r Bannau. Mae'r bysiau hyn yn rhedeg bob dydd Sul a gŵyl banc drwy gydol yr haf ac, yn 2009-10, cludwyd 11,000 o deithwyr, gan ragori ar darged yr Awdurdod o 7,500. Mae'r Awdurdod yn ategu argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus â thaflenni a gynlluniwyd i helpu pobl i gynllunio teithiau cerdded sy'n dechrau ac yn gorffen wrth arosfannau bysiau hygyrch.

4 Sefydliad yw Cynllunwyr Map Bywyd sy'n gweithio gyda phlant ifanc o gymyunedau difreintiedig.

48 Am fod gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol i hybu dealltwriaeth pobl o'r Parc, rydym o'r farn ei bod yn bwysig i berfformiad yr Awdurdod gael ei archwilio mewn perthynas â hynny. Mae tîm addysg yr Awdurdod yn rhan bwysig o'i ddull o hybu dealltwriaeth. Mae'r tîm yn darparu ystod o gyrsiau ar gyfer grwpiau ysgol, yn cynnwys rhai cyrsiau preswyl. Mae'r cyrsiau hyn ar gyfer lefel sylfaenol a chamau allweddol un a dau, hyd at TGAU, lefel A a thu hwnt. Mae cyrsiau'n cyfateb i'r Cwricwlwm Cenedlaethol.Yn ogystal ag ymweld ag ysgolion a chymunedau lleol, mae'r tîm yn cynhyrchu taflenni ffeithiau, yn cyhoeddi cylchlythyr ysgolion ac yn darparu cynlluniau gwersi ac adnoddau eraill ar wefan yr Awdurdod. Mae rhaglen profiad gwaith yr Awdurdod hefyd yn hybu dealltwriaeth drwy'r lleoliadau pythefnos a gynigir i fyfyrwyr bob blwyddyn.

49 Ar gyfer y sawl sy'n cerdded yn y Parc, mae'r Awdurdod wedi datblygu llwybrau sain, sy'n caniatáu i bobl lwytho tywysyddion sain i lawr y gellir gwrando arnynt wrth gerdded ar hyd llwybrau penodol. Mae rhaglen weithgareddau a digwyddiadau'r Awdurdod yn cynnwys gwybodaeth am deithiau cerdded tywysedig, lle bydd tywyswyr arbenigol yn arwain grwpiau o bobl. Mae pecyn cymorth cerdded a dehongli cymunedol ar gael ar ei wefan, ynghyd â llyfryn teithiau cerdded bywyd gwyllt. Mae gan yr Awdurdod bum canolfan wybodaeth, ac mae'n gwasanaethu nifer o fannau gwybodaeth mewn pentrefi.

50 Mae'r Awdurdod hefyd wedi gweithio gyda'r diwydiant twristiaeth, gan ddarparu hyfforddiant i bobl yn y diwydiant er mwyn gwella'u gwybodaeth am y Parc a'r hyn sydd ar gael ar gyfer ymwelwyr. Roedd cynllun peilot 'Gwybodaeth am y Parc Cenedlaethol' a gynhaliwyd gan yr Awdurdod yn annog gyrwyr tacsi lleol i gynnig gwybodaeth ddefnyddiol am y parc i'r sawl sy'n defnyddio'u gwasanaethau.

51 Nod yr holl weithgareddau hyn yw gwella dealltwriaeth pobl a'u mwynhad o'r Parc. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod yn gwybod i ba raddau y mae dealltwriaeth a mwynhad pobl wedi cynyddu mewn gwirionedd o ganlyniad i'r gwaith a gyflawnir ganddo. Rydym yn cydnabod nad yw effaith y gweithgareddau hyn yn hawdd i'w mesur, ond os nad yw'r Awdurdod yn gwybod a yw ei weithgareddau yn gwneud gwahaniaeth, sut y gall fod yn siŵr nad oes angen iddo newid ei ddull gweithredu?

# Beth y dylai'r Awdurdod ei wneud?

52 O ystyried yr heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor/Awdurdod ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

53 Rydym o'r farn bod angen i'r Awdurdod ystyried ein cynigion i'w helpu i wella.

**Cynigion a wnaed yn ein gwaith cynharach**

- yn ddi-oed, ystyried ffyrdd o sicrhau bod gan yr Awdurdod ddigon o allu ac adnoddau i gyflawni'r gwelliannau arfaethedig;
- datblygu dull corfforaethol o gynllunio'r gweithlu, sy'n cefnogi gallu'r Awdurdod i gyflawni ei flaenoriaethau;
- gwneud defnydd mwy effeithiol o ddata i reoli perfformiad, gan sicrhau yn arbennig y rhoddir mwy o ffocws ar ganlyniadau; a
- sicrhau bod blaenoriaethau'r Awdurdod yn sail i drefniadau cynllunio ariannol tymor canolig.

**Cynigion newydd ar gyfer gwella**

- yn y dyfodol, datblygu amcanion gwella sydd:
  - yn canolbwyntio mwy ar yr hyn a gyflawnir, yn hytrach na'r hyn a wneir;
  - yn fesuradwy;
  - yn cyfateb i'r adnoddau sydd ar gael; ac
  - yn cyfeirio'n benodol at lefel y gwelliant yr anelir ati.
- cyhoeddi cynlluniau gwella yn gynharach yn y flwyddyn, yn unol â gofynion y Mesur; hefyd ystyried y posibilrwydd o gyhoeddi ei amcanion gwella yn ehangach; a
- rhoi blaenoriaeth i sicrhau cynnydd o ran mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, ac osgoi unrhyw lithriant pellach.

# Atodiad 1

## Yr Archwilydd Cyffredinol a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio gwahanol agweddau ar sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Cafodd ei chreu yn 2005 pan unwyd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Gwnaeth y ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd ehangu pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' i ble bynnag yr aiff.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd y Mesur gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef cyhoeddi adroddiad sy'n cadarnhau ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir Awdurdodau Gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Prif waith Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau, yw cynnal Asesiad Gwella blynyddol[5].

5 Caiff yr asesiad hwn ei gynnal ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Ar gyfer pob awdurdod, bydd yn penderfynu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 y Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad gwella gwybodaeth a chynllunio fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur er mwyn nodi a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Caiff yr asesiad hwn ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol - asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad - asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau arfaethedig er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant.

Cyhoeddir allbwn/allbynnau'r asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu o dan adran 19 o'r Mesur. Drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cadarnhau ein bod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23) sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad a wnaed ganddo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunir arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'r Awdurdod

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gwario tua £6.4 miliwn y flwyddyn (2009-10). Mae hyn yn cyfateb i tua £183 fesul preswylydd. Yn 2009-10, gwariodd yr Awdurdod swm net o £41,000 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Mae gan yr Awdurdod 24 o aelodau. Penodwyd wyth gan Lywodraeth y Cynulliad; wyth o Gyngor Sir Powys; dau yr un o Gyngor Sir Fynwy a Chyngor Sir Caerfyrddin; ac un yr un o Gynghorau Sir Merthyr Tydfil, Torfaen, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf. Mae'r aelodau hyn yn gwneud penderfyniadau am flaenoriaethau a'r defnydd o adnoddau.

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn nodi bod dibenion yr Awdurdod fel a ganlyn:

- gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ardal y parc; a
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardal.

Mae Deddf 1995 hefyd yn nodi bod dyletswydd ar yr Awdurdod, wrth anelu at gyflawni'r dibenion hyn, i geisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol. Yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio statudol ar gyfer ei ardal.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Awdurdod wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

**Tîm Rheoli Corfforaethol**[6]

- John Cook yw'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Gwasanaethau Taledig
- Christopher Morgan yw'r Cyfarwyddwr Cynllunio
- Julian Atkins yw'r Cyfarwyddwr Cefn Gwlad a Rheoli Tir

Am ragor o wybodaeth, gweler gwefan yr Awdurdod yn www.breconbeacons.org neu cysylltwch â'r Awdurdod yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu. LD3 7HP.

6 Prif Swyddogion yr Awdurdod.

# Atodiad 3

## Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir prif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol, a gyflwynwyd i'r Awdurdod ym mis Gorffennaf 2010, isod:

- Mae arweinyddiaeth effeithiol wedi gosod seiliau cadarn ar gyfer gwella ac mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen cyflawni mwy o waith; er bod cynnal y momentwm a fydd yn arwain at welliant pellach yn parhau i fod yn her.

**Sut mae'r Awdurdod wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Mae ymateb cadarnhaol yr Awdurdod i'r gwendidau a nodwyd wedi arwain at welliannau sylweddol yn ei drefniadau ond mae diffyg gallu ac adnoddau yn amharu ar ragolygon ar gyfer gwelliant yn y dyfodol:

- cyfrannodd problemau difrifol a amlygwyd gan swyddogaeth gynllunio'r Awdurdod at newidiadau sylweddol i'r tîm rheoli corfforaethol ac at wella trefniadau ar draws y sefydliad;
- mae cyflwyno gwelliannau sylweddol mewn meysydd megis llywodraethu yn golygu bod yr Awdurdod mewn gwell sefyllfa i sicrhau gwelliant yn y dyfodol; a
- chynllunnir newidiadau pellach ond mae diffyg gallu ac adnoddau yn golygu bod rhai mentrau naill ai'n hwyr neu byddant yn cymryd cryn dipyn o amser i'w cwblhau, gan effeithio ar allu'r Awdurdod i gyflawni gwelliant yn y dyfodol.

**Dadansoddiad o drefniadau'r Awdurdod i'w helpu i wella**

Arweinyddiaeth effeithiol a gwell llywodraethu yw cryfderau penodol yr Awdurdod, a gefnogir gan ei ddull o reoli pobl ac agweddau ar weithio mewn partneriaeth, ond mae rhai meysydd pwysig yn cael eu datblygu o hyd:

- mae arweinyddiaeth a llywodraethu yn chwarae rôl sylweddol o ran cefnogi gwelliant;
- mae trefniadau rheoli pobl, trefniadau cydweithio a'r gwaith o reoli adnoddau ariannol yr Awdurdod o ddydd i ddydd yn cefnogi gwelliant mewn ffordd gadarnhaol;
- mae ystod o bolisïau ac agweddau ar brosesau busnes yr Awdurdod, ynghyd â strategaeth gliriach sy'n datblygu, yn cefnogi gwelliant yn rhannol; ac
- er bod yr Awdurdod wedi dechrau datblygu dull cynllunio ariannol tymor canolig newydd, nid yw'r agwedd hon yn cefnogi gwelliant hyd yma.

I weld yr adroddiad llawn, ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk neu cysylltwch â ni ar y cyfeiriad ar glawr mewnol yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4

## Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

**Gwnaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gydymffurfio â'r gofynion o ran cyflwyno adroddiadau ariannol a rhai ar wella perfformiad, ond mae lle o hyd iddo atgyfnerthu ei drefniadau adrodd a gwybodaeth am berfformiad**

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- chyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Ar 29 Medi 2010 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol yr Awdurdod. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

Mae fy adolygiad o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi cynnwys y gwaith archwilio ariannol a nodwyd uchod yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur Llywodraeth Leol. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi ar dudalen 12 o'r adroddiad hwn.

Yn ystod yr archwiliad, nodais yr arferion da canlynol:

- bod Cod Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei fabwysiadu, a fydd yn cyfrannu'n sylweddol at drefniadau llywodraethu cyffredinol a'r disgwyliad y bydd angen Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2010-11; ac
- mae gwaith parhaus y Pwyllgor Archwilio a Chraffu'n rhoi ffocws clir ar faterion yn ymwneud â llywodraethu a pherfformiad a bydd yn cynorthwyo'r Awdurdod i reoli newid yn wyneb pwysau ariannol.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ar gyfer 2009-10 fod yn unol â'r swm a nodwyd yn y Strategaeth Archwilio Ariannol.

Ceri Stradling
Archwilydd Penodedig

Tachwedd 2010

# Atodiad 5

## Cyfeiriadau

Daw'r holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad o'r ffynonellau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau cryno ardaloedd lleol
- Gwefannau a chynlluniau gwella'r awdurdod gwella ei hun
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol